Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Rhoi'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig ar waith yng Nghymru

**Mae'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS) yn trawsnewid sut mae presgripsiynau'n cael eu rheoli yng Nghymru. Mae EPS yn golygu bod modd anfon presgripsiynau'n electronig, yn uniongyrchol o bractis meddyg teulu i fferyllfa.**

EPS yw'r gwasanaeth digidol ar gyfer llofnodi a rheoli presgripsiynau cleifion. Yn hytrach na ffurflenni papur, mae EPS yn golygu bod meddyg teulu neu bresgripsiynydd arall sydd â phractis meddyg teulu yn gallu anfon presgripsiwn yn uniongyrchol i'r fferyllfa neu at y fferyllydd a enwebwyd gan y claf yn electronig.

- Mae **pum miliwn** o eitemau eisoes wedi'u dosbarthu gan ddefnyddio EPS.
- Mae **60% o fferyllfeydd** yng Nghymru yn gallu cael presgripsiwn gan bractis meddyg teulu drwy EPS, ac mae'r broses o gyflwyno'r gwasanaeth yn mynd rhagddi mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl.
- Cefnogir EPS gan y **Gronfa Arloesi System Fferylliaeth Gymunedol (y Gronfa Arloesi)**, sef model cyllid grant arloesol a sefydlwyd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a Rhaglenni Meddyginiaethau Digidol Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

## Ynglŷn â'r prosiect

EPS yw un o'r newidiadau mwyaf ers degawdau i'r ffordd y mae GIG Cymru yn rheoli presgripsiynau.

Mae'n rhan allweddol o'r Rhaglenni Meddyginiaethau Digidol sy'n cael eu rheoli gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae **Iechyd a Gofal Digidol Cymru** yn defnyddio adnoddau digidol i wneud presgripsiynu, dosbarthu a gweinyddu meddyginiaethau yng Nghymru yn haws, yn fwy diogel, ac yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Mae trosglwyddo presgripsiynau'n electronig yn rhan o'r trawsnewid digidol hwn ac mae cyflenwyr systemau fferylliaeth gymunedol yn rhan hanfodol o sicrhau bod Cymru'n barod ar gyfer EPS.

Mae'r Gronfa Arloesi'n rhoi cymorth ariannol i gyflenwyr systemau fferylliaeth gymunedol drwy gyllid grant. Mae model cyllido strwythuredig yn sicrhau bod gan gyflenwyr yr adnoddau angenrheidiol i ddarparu atebion sy'n cyd-fynd â chyflwyno EPS.




## Partneriaid

- AAH Pharmaceuticals Ltd
- Apotec
- Boots
- Cegedim
- Clanwilliam
- Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Invatech
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- GIG Lloegr
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Optum (EMIS gynt)
- PharmacyX
- Positive Solutions

## Sut mae'n gweithio?

Mae EPS yn rhad ac am ddim ac yn ddiogel, ac nid oes angen i gleifion fynd ar-lein i ddefnyddio'r gwasanaeth. Y cyfan maen nhw'n gorfod ei wneud yw gofyn i staff yn eu meddygfa neu eu fferyllfa arferol eu cofrestru.

Does dim angen argraffu na chasglu'r presgripsiwn papur gwyrdd traddodiadol o'r feddygfa. Mae'n cael ei anfon yn electronig yn uniongyrchol at fferyllydd dewisol y claf.

Un o brif fanteision system ddigidol yw'r trywydd archwilio sy'n deillio ohoni. Os nad yw cleifion yn gwybod beth yw statws eu presgripsiwn, byddan nhw'n aml yn ffonio eu meddygfa neu eu fferyllfa gymunedol arferol a bydd y staff yn treulio amser yn ymchwilio, ac yn aml yn gorfod ffonio'r feddygfa neu'r fferyllfa berthnasol. Gall y system EPS olrhain presgripsiynau'n gyflym, gan arbed amser i bawb.

> "Mae gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau ar y prosiect hwn wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn. Mae EPS yn dod â manteision i gleifion, presgripsiynwyr, fferyllfeydd cymunedol a fferyllwyr eraill. Yn y pen draw, rydyn ni i gyd yn ceisio gwella pethau i gleifion ac i'r gwasanaeth yn gyffredinol, er mwyn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol allu cael mwy o amser gyda chleifion."
>
> Jenny Pugh-Jones, Cadeirydd Goruchwylio Rhaglenni ar gyfer EPS yng Nghymru

> "Mae'r rhaglen Meddyginiaethau Digidol yn hynod gyffrous. Mae ei gwerth yn amlwg – nid yn unig i gleifion ond hefyd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Nid argyhoeddi pobl o'i manteision yw ein her fwyaf, ond ateb y galw a darparu'n gyflym. Mae'n fraint cyfrannu at rywbeth a fydd yn trawsnewid sut mae meddyginiaethau'n cael eu rheoli ar draws gofal iechyd."
>
> Laurence James, Pennaeth Rhaglenni Meddyginiaethau yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Manteision

Mae cyflwyno EPS yng Nghymru yn gam pwysig ymlaen o ran trawsnewid gwasanaethau gofal iechyd yn ddigidol. Mae'n gwneud prosesau presgripsiynu yn fwy diogel, effeithlon a chyfleus i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a chleifion.

Mae clinigwyr a chleifion eisoes yn elwa o EPS. Mae llawer o'r manteision yn cynnwys arbed amser i gleifion, presgripsiynwyr, staff fferyllfeydd a staff mewn practisiau meddygon teulu. Mae EPS hefyd yn lleihau faint o waith argraffu sy'n cael ei wneud, ac mae hynny'n arwain at fanteision ariannol ac amgylcheddol.

### Effaith ar gleifion

Mae EPS yn gwneud y broses bresgripsiynu yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy cyfleus i gleifion. Gallant osgoi teithio i'w meddygfa dim ond i gasglu ffurflen bresgripsiwn.

Hefyd, does dim angen i gleifion gael mynediad at gyfrifiadur na ffôn clyfar i ddefnyddio EPS. Os byddant yn rhoi gwybod i staff yn eu meddygfa neu fferyllfa eu bod yn dymuno defnyddio EPS, gallan nhw wneud y gweddill.

### Effaith ar weithwyr iechyd proffesiynol

Mae EPS yn gwneud y broses bresgripsiynu'n fwy effeithlon i staff gofal iechyd. Mae'n dileu'r risg y bydd presgripsiwn yn mynd ar goll, gan fod staff yn gallu olrhain ei leoliad bob amser.


Mae meddygfeydd yn dweud eu bod yn treulio llai o amser yn chwilio am bresgripsiynau oherwydd ei bod yn hawdd gweld statws presgripsiwn yn y system. Mae adborth arall gan fferyllfeydd a meddygon teulu yn cynnwys "mae EPS yn arloesol" a "dyma'r peth gorau rydyn ni wedi'i wneud erioed!"

Yn y pen draw, dylai'r amser y bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ei arbed ar brosesau gweinyddol sy'n ymwneud â phresgripsiynau arwain at fwy o adnoddau ar gyfer gofal cleifion.

### Effaith ar y system

Mae gwaith monitro'n mynd rhagddo ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 a disgwylir gweld effaith gadarnhaol ar brosesau ar draws y system, gan arbed amser i gleifion, meddygon teulu a fferyllfeydd.

Bydd y Rhaglenni Meddyginiaethau Digidol hefyd yn darparu cofnod o feddyginiaethau, alergeddau ac anoddefiadau a rennir ar gyfer pob claf yng Nghymru sy'n defnyddio EPS. Mae cael data meddyginiaethau ar gael yn ddigidol hefyd yn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi data.



> "Wrth i fferyllfeydd wynebu pwysau cynyddol i ddosbarthu mwy o eitemau presgripsiwn ac wrth i'r galw gan gleifion gynyddu, mae'n hanfodol digideiddio mwy o'r daith bresgripsiynu. Mae manteision y rhaglen hon yn mynd y tu hwnt i gefnogi timau fferylliaeth a phractisiau meddygon teulu a'u galluogi i wella effeithlonrwydd, mae hefyd yn sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar y gofal sydd ei angen arnynt yn haws ac yn fwy cyfleus."
>
> Tracey Robertson, Cyfarwyddwr Cynnyrch a Thechnoleg Cegedim Rx

Dywedodd Laurence James, Pennaeth Rhaglenni Meddyginiaethau yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru:

> “Mae’r Gronfa Arloesi System Fferylliaeth Gymunedol wedi chwarae rhan ganolog yn rhaglen EPS, gan ymgysylltu’n llwyddiannus â chyflenwyr. Mae ein cydweithrediad â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi bod yn hynod o fuddiol – ni fyddai ein cynnydd hyd yma wedi bod yn bosibl heb y bartneriaeth gref hon.”

Fel gweinyddwyr grantiau, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn dilyn proses strwythuredig a thryloyw ar gyfer asesu, dyfarnu a rheoli cyllid grant i sicrhau cydymffurfiaeth a thegwch. Mae ceisiadau’n cael eu hadolygu gan banel annibynnol i bennu cymhwysedd ac mae Cytundebau Grant yn amlinellu cerrig milltir prosiectau, gan sicrhau atebolrwydd a thryloywder.

## Sut mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi cefnogi’r rhaglen

Cafodd **y Gronfa Arloesi** ei chreu i gefnogi fferyllfeydd cymunedol i fabwysiadu EPS yn eang drwy gyllid grant. Mae hyn wedi chwarae rhan ganolog yn y gwaith o alluogi cyflenwyr systemau i gydymffurfio ag EPS ac anfon neges glir bod GIG Cymru eisiau gweithio gyda chyflenwyr.

Dyluniwyd y gronfa i gwmpasu’r gwaith datblygu sydd ei angen i weithredu EPS (Haen 1), cefnogi datblygiadau arloesol tuag at brosesau fferylliaeth di-bapur (Haen 2), a hwyluso integreiddio ag Ap GIG Cymru (Haen 3) i roi gwybod pan fydd presgripsiwn yn barod i’w gasglu o fferyllfa.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi gweithio’n agos ar y rhaglen bwysig hon, gan sicrhau bod y prosesau rheoli grantiau yn gadarn a bod modd eu harchwilio.

## Llwyddiannau

Anfonwyd y presgripsiwn electronig cyntaf yng Nghymru ym mis Tachwedd 2023 o Ganolfan Feddygol Lakeside yn y Rhyl, Sir Ddinbych, i Fferyllfa Ffordd Wellington yn y dref. Ers hynny, mae’r gwasanaeth wedi cael ei gyflwyno’n raddol ac mae bellach ar gael ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Mae saith cyflenwr systemau fferylliaeth gymunedol wedi cael sicrwydd i gyflwyno EPS yng Nghymru ac mae ar gael mewn cymunedau ym mhob ardal bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae’r twf wedi bod yn rhyfeddol. Mae’r gwasanaeth wedi mynd o ddosbarthu ychydig dros 5,000 o eitemau presgripsiwn drwy EPS erbyn mis Ebrill 2024, i dair miliwn o eitemau erbyn mis Mehefin 2025.

> “Yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, rydyn ni’n falch o fod wedi gweithio ochr yn ochr ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyflenwyr meddalwedd i reoli’r grant yn effeithiol, gan sicrhau bod cyllid yn cyrraedd derbynyddion i barhau â’u gwaith amhrisiadwy.”

Cari-Anne Quinn, Prif Swyddog Gweithredol, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

# Llwyddiannau ers Tachwedd 2023



**5m** o eitemau presgripsiwn wedi’u dosbarthu drwy EPS yng Nghymru*

**7** cyflenwr systemau **fferylliaeth gymunedol** wedi cwblhau’r broses brofi a sicrwydd yng Nghymru

Mae EPS ar waith mewn **60%** o fferyllfeydd cymunedol

Mae EPS ar gael ym **mhob ardal bwrdd iechyd yng Nghymru**

*Mae’r holl ffigyrau’n gywir ym mis Awst 2025

## Beth nesaf?

Yn y cam cychwynnol, aeth cyflenwyr fferylliaeth gymunedol drwy broses o brofi a sicrwydd. Mae’r rhaglen, sydd bellach yn y cam gweithredu, yn canolbwyntio ar gyflwyno EPS.

Mae cyllid wedi cael ei ymestyn am flwyddyn arall hyd at 2025, lle bydd cyflenwyr yn gwella cynaliadwyedd a chyfleustra i ddefnyddwyr. Mae hyn yn golygu rhoi proses ddi-bapur ar waith i leihau faint o bapur sy’n cael ei argraffu mewn fferyllfeydd a gweithio ar integreiddio ag Ap GIG Cymru er mwyn gallu cael hysbysiadau gwthio i roi gwybod i gleifion pan fydd eu presgripsiynau’n barod.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn edrych ar gyfleoedd eraill i ddefnyddio EPS, fel mewn lleoliadau gofal brys a gofal mewn argyfwng a lleoliadau cleifion allanol mewn ysbytai.

## Sut gallwn ni helpu?

- Rydyn ni yma i helpu i sbarduno trawsnewid ar draws y system! Os ydych chi’n awyddus i gael gafael ar gymorth tebyg i’r hyn a amlinellir yn yr astudiaeth achos hon, rydyn ni eisiau clywed gennych chi.

**Cyflwynwch eich ymholiad heddiw drwy ein gwefan, yma.**

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales